Hawdd ei Ddeall

# Cronfa'r Rhaglen Gyfalaf

## Pa ddogfennau sydd eu hangen arnon ni ar gyfer y cais?



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o Adran 21 o '**Nodiadau Cymorth i Ymgeisio am Arian: Rhaglen Gyfalaf y Lotri**'.

**Tachwedd 2021**


Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 21**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, bydd hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**E-bost:** capital@arts.wales

**Ffôn:** **03301 242733**

**Gwefan:** arts.wales/about-us/contact-us

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnwys


**Ynglŷn â'r ddogfen hon....................................................................4**

**Y dogfennau sydd eu hangen arnon ni...................................................5**

Gwneud cais am arian ar gyfer offer.......................................................5

Gwneud cais am arian ar gyfer Gwaith Cyfalaf Bach – Atgyweirio Adeiladau...........................................................................................5

Gwneud cais am arian ar gyfer Gwaith Cyfalaf Mawr – Astudiaeth Dichonoldeb.........................................................................................7

Gwneud cais am arian ar gyfer Gwaith Cyfalaf Mawr – Datblygu Cynllun...............................................................................................12

Gwneud cais am arian ar gyfer Gwaith Cyfalaf Mawr – Adeiladwaith...15

**Os na allwch chi dderbyn arian y Lotri Genedlaethol..............................20**

**Geiriau anodd.........................................................................................21**

# Ynglŷn â'r ddogfen hon




Pan fyddwch chi'n gwneud cais am y **Rhaglen Gyfalaf**, mae'n rhaid i chi ddweud wrthyn ni am **eich prosiect**.




Hefyd mae arnoch chi angen rhoi **dogfennau pwysig** am **eich prosiect** i ni.




Rydyn ni'n galw'r dogfennau hyn yn **atodiadau**.




Mae arnoch chi angen lanlwytho'r **atodiadau** hyn ar **Adran 21** o'ch cais.




Bydd y ddogfen hon yn dweud wrthych chi pa **atodiadau** y mae arnoch chi angen eu lanlwytho.

# Dogfennau sydd eu hangen arnon ni



Mae’r hyn sydd ei angen arnon ni yn dibynnu ar y math o gais rydych chi’n ei wneud.

## Cais am arian ar gyfer offer

Mae arnon ni angen:



**Cyllideb** eich **prosiect** ar **Batrymlun Cyllideb y Prosiect.**





Rhestr o’r pethau y bydd arnoch chi eisiau eu prynu. A faint mae hyn i gyd yn ei gostio.




Tri dyfynbris gan wahanol bobl y gallech chi brynu’r pethau hyn ganddyn nhw.



Dim ond tri dyfynbris am eitemau sy'n costio £2,500 neu fwy sydd arnon ni angen eu gweld.

**Gwybodaeth arall y gallen ni fod â'i angen:**




Adroddiad am eich prosiect. Rydyn ni'n galw hyn yn **adroddiad tendr**.




Prawf bod angen am eich prosiect. Er enghraifft, mae cymunedau wedi dweud bod arnyn nhw ei angen.




Efallai y byddwch chi'n cael help gan bobl yn ystod eich prosiect. Mae arnon ni angen llythyrau ganddyn nhw yn dweud pa help y maen nhw'n ei roi.

# Ceisiadau am arian ar gyfer Gwaith Cyfalaf Bach – Atgyweirio Adeiladau


Mae arnon ni angen:



**Cyllideb** eich **prosiect** ar **Batrymlun Cyllideb y Prosiect.**



Mwy o fanylion am gostau eich prosiect, sy'n cyd-fynd â **Phatrymlun Cyllideb eich Prosiect**.





Eich cynllun terfynol ar gyfer eich prosiect.



Darluniau o'r hyn rydych chi'n mynd i'w wneud. Dylai'r rhain gael eu llofnodi gan eich mudiad.




Rhestr fanwl o'r offer rydych chi'n mynd i'w prynu.




Cynllun Busnes

**Gwybodaeth arall y gallen ni fod â'i angen:**




Adroddiad am eich prosiect. Rydyn ni'n galw hwn yn **adroddiad tendr.**




Dyfynbrisiau gan gyflenwyr neu gontractwyr fydd yn gweithio ar eich prosiect.




Gwybodaeth am y ffordd rydych chi'n bwriadu cael mwy o arian o **gronfeydd**.




Mae **cronfa** yn arian y gall mudiadau ei gael i'w helpu i wneud eu gwaith.




Prawf o unrhyw arian arall o **gronfa** sydd gennych.



Efallai y byddwch chi'n cael help gan bobl yn ystod eich prosiect. Mae arnon ni angen llythyrau ganddyn nhw yn dweud pa help y maen nhw'n ei roi.




Prawf bod angen am eich prosiect. Er enghraifft, mae cymunedau wedi dweud bod arnyn nhw ei angen.



**Arolwg adeilad**. Mae hyn yn wybodaeth am eich adeilad. I ddangos ei fod yn ddiogel.

**Arolwg asbestos**. Bydd hyn yn dweud a oes asbestos yn yr adeilad.



Gall asbestos fod yn beryglus. Gall Awdurdod Iechyd a Diogelwch eich helpu i gadw pobl yn ddiogel. Chwiliwch am fwy o wybodaeth ar eu gwefan: www.hse.gov.uk/asbestos/regulations.htm





Prawf bod gennych chi ganiatâd i wneud y prosiect adeiladu hwn. Er enghraifft, gan y landlord. Neu'r cyngor.

## Ceisiadau am arian ar gyfer Gwaith Cyfalaf Mawr – Astudiaeth Dichonoldeb

Mae arnon ni angen:




**Cyllideb** eich **prosiect** ar **Batrymlun Cyllideb y Prosiect**.



Dogfennau i ddangos ei bod hi'n bosibl gwneud y prosiect hwn.


**Gwybodaeth arall y gallen ni fod â'i angen:**



Disgrifiad swydd ar gyfer Rheolwr Prosiect eich prosiect.



Efallai y byddwch chi'n cael help gan bobl yn ystod eich prosiect. Mae arnon ni angen llythyrau ganddyn nhw yn dweud pa help y maen nhw'n ei roi.




Prawf bod angen am eich prosiect. Er enghraifft, mae cymunedau wedi dweud bod arnyn nhw ei angen.



**Arolwg adeilad**. Mae hyn yn wybodaeth am eich adeilad. I ddangos ei fod yn ddiogel.




Caniatâd gan y landlord i wneud y gwaith adeiladu hwn.




Prawf o unrhyw arian arall o **gronfa** sydd gennych.

## Ceisiadau am arian ar gyfer Gwaith Cyfalaf Mawr – Datblygu Cynllun


Mae arnon ni angen:



**Cyllideb** eich **prosiect** ar **Batrymlun Cyllideb y Prosiect**.



Dogfennau i ddangos ei bod hi'n bosibl gwneud y prosiect hwn.




Eich cynllun terfynol ar gyfer eich prosiect.



Cynllun Busnes

**Gwybodaeth arall y gallen ni fod â'i angen:**




CVau aelodau o'r tîm cynllunio a phobl eraill sy'n gweithio ar y prosiect.




Gwybodaeth am artistiaid y byddwch chi'n gweithio gyda nhw. I roi gwaith celfyddyd yn eich prosiect.



Darluniau o'ch adeilad.



Efallai y byddwch chi'n cael help gan bobl yn ystod eich prosiect. Mae arnon ni angen llythyrau ganddyn nhw yn dweud pa help y maen nhw'n ei roi.




Prawf bod angen am eich prosiect. Er enghraifft, mae cymunedau wedi dweud bod arnyn nhw ei angen.



**Arolwg adeilad**. Mae hyn yn wybodaeth am eich adeilad. I ddangos ei fod yn ddiogel.




Caniatâd gan y landlord i wneud y gwaith adeiladu hwn.





Prawf o unrhyw arian arall o **gronfa** sydd gennych.

# Ceisiadau am arian ar gyfer Gwaith Cyfalaf Mawr – Adeiladwaith


Mae arnon ni angen:




**Cyllideb** eich **prosiect** ar **Batrymlun Cyllideb y Prosiect**.




Cynllun Costau Cyd-drefniant Gofodol.





Adroddiad Cynllunio Cyd-drefniant Gofodol.



Darluniau o’r hyn rydych chi’n mynd i’w wneud. Dylai’r rhain gael eu llofnodi gan eich mudiad.



Rhestr fanwl o offer rydych chi’n mynd i’w prynu.




Gwybodaeth am y ffordd y byddwch chi'n amddiffyn yr **amgylchedd** yn ystod eich prosiect. Yn awr ac yn y dyfodol.



Yr **amgylchedd** yw'r lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr aer, a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.


**Mae arnon ni hefyd angen:**



Gwybodaeth ynghylch y ffordd rydych chi wedi gwneud eich prosiect yn **hygyrch**.



Mae **hygyrch** yn meddwl ei bod hi'n hawdd mynd i rywle. Ac i symud o gwmpas o un lle i'r llall.




Dogfennau ynglŷn â'ch cynlluniau i ddefnyddio celfyddyd gyhoeddus.



Gwybodaeth am y ffordd y byddwch chi'n rhedeg pethau yn eich adeilad unwaith y mae wedi'i orffen.



Gwybodaeth am eich grŵp Rheoli Prosiect.





Cynllun ar gyfer eich gwaith adeiladu.



Cynllun Busnes

**Gwybodaeth arall y gallen ni fod â'i angen:**





Adroddiad am eich prosiect. Rydyn ni'n galw hwn yn **adroddiad tendr**.



Dyfynbrisiau gan gyflenwyr a chontractwyr fydd yn gweithio ar eich prosiect.




CVau pobl sy’n gweithio ar y prosiect.




Disgrifiad swydd ar gyfer Rheolwr Prosiect eich prosiect.




Gwybodaeth am y ffordd rydych chi’n bwriadu cael mwy o arian o **gronfeydd.**




Prawf o unrhyw arian arall o **gronfa** sydd gennych.



Gwybodaeth am artistiaid y byddwch chi’n gweithio gyda nhw. I roi gwaith celfyddyd yn eich prosiect.



Efallai y byddwch chi'n cael help gan bobl yn ystod eich prosiect. Mae arnon ni angen llythyrau ganddyn nhw yn dweud pa help y maen nhw'n ei roi.




Prawf bod angen am eich prosiect. Er enghraifft, mae cymunedau wedi dweud bod arnyn nhw ei angen.



**Arolwg adeilad**. Mae hyn yn wybodaeth am eich adeilad. I ddangos ei fod yn ddiogel.



**Arolwg asbestos**. Bydd hyn yn dweud a oes asbestos yn yr adeilad.



Gall asbestos fod yn beryglus. Gall Awdurdod Iechyd a Diogelwch eich helpu i gadw pobl yn ddiogel. Chwiliwch am fwy o wybodaeth ar eu gwefan: www.hse.gov.uk/asbestos/regulations.htm




Dogfennau i ddangos bod gennych chi ganiatâd i wneud y prosiect adeiladu hwn. Er enghraifft, gan y landlord. Neu'r cyngor.

# Os na allwch chi dderbyn arian y Lotri Genedlaethol



Os na allwch chi dderbyn arian o **gronfa** y Lotri, dylech chi ddweud wrthyn ni.




Lanlwythwch lythyr â’ch cais yn dweud pam na allwch chi dderbyn arian o **gronfa** y Lotri.



Efallai y gallwn ni roi arian o **gronfa** ar gyfer eich prosiect ag arian o leoedd eraill.

# Geiriau anodd

## Amgylchedd

Yr amgylchedd yw'r lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr aer, a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod

## Cronfa

Mae cronfa yn arian y gall mudiadau ei gael i'w helpu i wneud eu gwaith.

## Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl ei bod hi'n hawdd mynd i rywle. Ac i symud o gwmpas o un lle i'r llall.